OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif. (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder o 40 MYA) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *30 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe – Manceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder o 40 MYA) 2014.

**Cyfyngiad**

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Dirymiadau**

**3.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (Llandybïe, Dyfed) (Terfynau Cyflymder) 1978**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

**4.** Mae Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd (Llandybïe, Dyfed) (Terfynau Cyflymder) 1978 (Amrywio) 2000**(3)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

**5.** Mae Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd (Llandybïe, Dyfed) (Terfynau Cyflymder) 1978 (Amrywio) 2004**(4)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 28 Hydref 2014

**S HAGUE**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 1978/1555.
**(3)** O.S. 2000/2664 (Cy.173).
**(4)** O.S 2004/940 (Cy.100).

## YR ATODLEN

1. Y darn o'r gefnffordd o'r enw Bonllwyn Road sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Aberlash hyd at bwynt 90 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Mackays Road.

2. Y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llandeilo sy'n ymestyn o bwynt 404 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Pentregwenlais hyd at bwynt 485 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U4401.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (LLANDYBÏE, SIR GAERFYRDDIN) (TERFYN CYFLYMDER O 40 MYA) 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 30 Hydref 2014.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o gefnffordd yr A483, Abertawe – Manceinion yn Llandybïe yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 29 Hydref 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r cynllun cysylltiedig yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn

Llyfrgell Rhydaman, 3 Stryd-y-gwynt, Canol y Dref, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3DN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar **www.cymru.gov.uk** (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2014').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

1. Y darn o'r gefnffordd o'r enw Bonllwyn Road sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Aberlash hyd at bwynt 90 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Mackays Road.

2. Y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llandeilo sy'n ymestyn o bwynt 404 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Pentregwenlais hyd at bwynt 485 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U4401.